1 Cwr y Ddinas / 1 Capital Quarter

Caerdydd / Cardiff

CF10 4BZ

Tel / Ffôn: 029 2032 0500

Fax / Ffacs: 029 2032 0600

Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660

Cyfeirnod:

Dyddiad cyhoeddi: 22 Ebrill 2024

Annwyl Aelodau

Ffurflen Flynyddol Awdurdod Harbwr Porth Tywyn am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

Mae'r llythyr hwn yn nodi'r gwaith rwy'n bwriadu ei wneud yn ystod 2024 i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol fel eich archwilydd allanol ac i gyflawni fy nyletswyddau o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

Fy nyletswyddau

Bob blwyddyn mae'n ofynnol i mi archwilio Ffurflen Flynyddol Awdurdod Harbwr Porth Tywyn i roi barn:

- ynghylch a yw'r wybodaeth a gynhwysir yn y Ffurflen Flynyddol yn unol ag arferion priodol; ac
- a oes unrhyw faterion wedi dod i sylw'r archwilydd gan beri pryder nad yw deddfwriaeth a gofynion rheoliadol perthnasol wedi'u bodloni.

Ni osodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf wrth gynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

Gallaf gadarnhau bod pob aelod o'r tîm yn annibynnol arnoch chi a'ch swyddogion.

Mae ein cyfrifoldebau wedi'u nodi'n fanylach yn ein dogfenDatganiad o Gyfrifoldebau, ynghyd â rhagor o wybodaeth am ein gwaith.

Ffi, tîm archwilio ac amserlen

Ym mis Ionawr 2024 cyhoeddais y cynllun ffioedd ar gyfer y flwyddyn 2024-25 fel y cymeradwywyd gan Bwyllgor Cyllid y Senedd. Mae fy nghyfraddau ffioedd ar gyfer 2024-25 wedi cynyddu 6.4% ar gyfartaledd o ganlyniad i bwysau chwyddiant na ellir ei osgoi a'r angen parhaus i fuddsoddi mewn ansawdd archwilio.

Mae fy ffioedd a'r amserlenni arfaethedig ar gyfer cwblhau'r archwiliad yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:

- y darperir y Ffurflen Flynyddol yn unol ag amserlen i'w chytuno arni, i'r ansawdd a ddisgwylir ac mae wedi bod yn destun adolygiad sicrwydd ansawdd cadarn;
- bod yr wybodaeth a ddarperir i ategu'r Ffurflen Flynyddol fel y cytunwyd;
- darperir llety a chyfleusterau priodol i alluogi fy nhîm archwilio i gyflwyno'r archwiliad mewn modd effeithlon;
- bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;
- bod gennych yr holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith; a
- bod unrhyw raglen waith Archwilio Mewnol wedi'i chwblhau a bod y rheolwyr wedi ymateb i faterion a allai fod wedi effeithio ar y Ffurflen Flynyddol.

Nodir y ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2023-24 yn **Arddangosyn 1**.

Arddangosyn 1: ffi archwilio

Maes archwilio	Ffi arfaethedig (£)	Ffi wirioneddol y llynedd (£)
Archwilio cyfrifon	£1,389	£1,305
Cyfanswm y ffi	**£1,389**	**£1,305**

Ceir crynodeb o brif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, yn **Arddangosyn 2**.

Arddangosyn 2: fy nhîm archwilio

Enw	Swydd	Manylion Cyswllt
Derwyn Owen	Cyfarwyddwr Ymgysylltu	derwyn.owen@archwilio.cymru
Jason Blewitt	Rheolwr Archwilio	Jason.Blewitt@archwilio.cymru
Jonathan Mather	Uwch Archwilydd	Jonathan.Mather@archwilio.cymru

Amserlen

Ein bwriad yw cwblhau'r archwiliad o'r Ffurflen Flynyddol erbyn diwedd mis Tachwedd 2024.

Yr eiddoch yn gywir

Derwyn Owen

Cyfarwyddwr Ymgysylltu